WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Rhagfyr 2006

Awdur: Anthony Barrett Cyf: 920A2006

# Llythyr Archwilio Blynyddol 2005/2006

# **Awdurdod Tân Gogledd Cymru**

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | 4 |
| **Llythyr Manwl** | |
| Rhoddais farn archwilio ddiamod ar gyfrifon yr Awdurdod am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2006 | 6 |
| Gellir dibynnu ar systemau ariannol pwysig yr Awdurdod i gynhyrchu canlyniadau sy'n gywir mewn ffyrdd perthnasol | 8 |
| Mae'r Awdurdod wedi parhau i ddefnyddio trefniadau llywodraethu priodol | 8 |
| Mae'r Awdurdod wedi sefydlu cyllideb fantoledig ac wedi parhau i fonitro refeniw a gwariant cyfalaf | 9 |
| Rwy'n fodlon o ran bodolaeth y trefniadau a oedd ar waith gan Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn ystod y flwyddyn i roi cefnogaeth briodol i gyflawni ei gyfrifoldeb am sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau yn ystod 2005/2006 | 10 |
| **Atodiadau** | |
| 1. Adroddiad yr Archwilydd ar y trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau yn ystod 2005/2006 | 13 |
| 2. Meini prawf ar gyfer asesu trefniadau Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn ystod 2005/2006 ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei defnydd o adnoddau | 14 |
| 3. Adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod archwiliad 2005/2006 | 15 |
| 4. Ffi archwilio | 16 |

## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd yr adroddiad hwn at ddefnydd mewnol y corff a enwir. Paratoir ein hadroddiadau:

- Mewn perthynas ag archwiliad, o dan y ddeddfwriaeth alluogi berthnasol a'r cyfrifoldebau a nodwyd yn y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu, ac yng nghyd-destun y 'Datganiad o Gyfrifoldebau', a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- Mewn perthynas ag arolygiad, yn dilyn gwaith arolygu a gynhaliwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Paratoir adroddiadau gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ac archwilwyr penodedig, ac fe'u cyfeirir at aelodau neu swyddogion yn cynnwys y sawl a ddynodwyd yn swyddogion cyfrifyddu neu'n swyddogion atebol. Fe'u paratoir at ddefnydd y corff a enwir yn unig, ac nid yw Swyddfa Archwilio Cymru na'r archwilwyr a benodwyd yn atebol i unrhyw gyfarwyddwr/aelod neu swyddog yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.


# Crynodeb

1. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol (y Llythyr) hwn i aelodau Awdurdod Tân Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn crynhoi casgliadau fy archwiliad ar gyfer 2005/2006. Nodwyd y gwaith y bwriadwyd ei gyflawni yn ystod y flwyddyn yn y Strategaeth Archwilio y cytunwyd arni ar gyfer 2005/2006. Mae'r Llythyr yn cyflwyno adroddiad i aelodau ar unrhyw faterion o bwys sy'n codi o'm harchwiliad, ynghyd â sylwadau ar faterion cyfredol eraill.
2. Ceir mwy o fanylion am agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyflwynwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodwyd a chytunwyd ar yr adroddiadau hyn gyda swyddogion. Rhestrir yr adroddiadau a gyflwynwyd yn Atodiad 4 ar ddiwedd y Llythyr hwn er gwybodaeth.
3. Cyfeirir yn fynych at ganllawiau a dogfennaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) yn y Llythyr hwn, gan gynnwys y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu (y Cod). Roedd hwn yn berthnasol i'r flwyddyn archwilio gyfan a chyfeiria at y Datganiad o Gyfrifoldebau Archwilwyr ac Arolygwyr a Chyrff a Archwilir ac a Arolygir (y Datganiad) sy'n crynhoi cyfrifoldebau allweddol archwilwyr. Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â'r egwyddorion a nodwyd yn y Datganiad hwnnw. Dylid ystyried fy sylwadau am ganlyniadau fy archwiliad yng nghyd-destun y cefndir mwy ffurfiol hwnnw.
4. Paratoir y Llythyr gennyf fel yr archwilydd penodedig ac fe'i cyfeirir at aelodau a swyddogion yr Awdurdod. Paratoir y Llythyr at ddefnydd y corff a archwilir yn unig, ac nid yw’r archwilwyr yn atebol i unrhyw aelod neu swyddog yr Awdurdod yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

## Amcanion yr archwiliad

5. Fy mhrif amcan yw cynllunio a chynnal archwiliad sy'n bodloni gofynion y Cod. Mabwysiadaf ymagwedd sy'n seiliedig ar risg tuag at gynllunio'r archwiliad, ac mae'r gwaith archwilio wedi canolbwyntio ar eich risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio.
6. Yna strwythurir y gwaith archwilio o amgylch yr elfennau allweddol o'm cyfrifoldebau fel y'u nodwyd yn y Cod ac a ddangosir yn Arddangosyn 1.

**Arddangosyn 1: Elfennau allweddol o'r archwiliad**



7. Gellir crynhoi'r materion allweddol sy'n codi o fy archwiliad fel a ganlyn:

### Archwiliad o'r Cyfrifon ariannol

- Rhoddais farn archwilio ddiamod ar gyfrifon yr Awdurdod am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2006;
- mae systemau ariannol pwysig yr Awdurdod wedi parhau i weithredu'n effeithiol;
- mae'r Awdurdod wedi parhau i ddefnyddio trefniadau llywodraethu priodol; ac
- mae'r sefyllfa ariannol gyffredinol yn gadarn a rhoddir adroddiadau rheolaeth gyllidebol rheolaidd i'r Awdurdod.

### Archwilio perfformiad

- Rwy'n fodlon o ran bodolaeth y trefniadau a oedd ar waith gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn i roi cefnogaeth briodol i gyflawni ei gyfrifoldeb am sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau yn ystod 2005/2006.
- Defnyddiwyd canlyniadau fy rhaglen o waith archwilio perfformiad fel sail i'r casgliad Gwerth am Arian uchod.

8. Trafodwyd y Llythyr hwn â'r Prif Swyddog Tân a'r Trysorydd a chytunwyd arno. Yna caiff ei gyflwyno i gyfarfod y Panel Gwiethredol ym mis Ionawr 2007, a rhoddir copi i bob aelod o'r Awdurdod.

9. Fy nod yw darparu archwiliad o safon uchel sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol ac ymarferol i ategu agenda'r Awdurdod ei hun. Rwyf yn cydnabod gwerth eich cydweithrediad a'ch cymorth er mwyn cyrraedd y nod hwn a hoffwn fynegi fy ngwerthfawrogiad am y cymorth a'r cydweithrediad a gafwyd yn ystod yr archwiliad.

**Anthony Barrett**
**Archwilydd Penodedig**

21 Rhagfyr 2006

## Y cyfrifon ariannol

10. Y Datganiadau Ariannol yw'r ffordd hanfodol y mae'r Awdurdod yn rhoi cyfrif am ei ddull o stiwardio'r adnoddau sydd ar gael iddo a'i berfformiad ariannol wrth ddefnyddio'r adnoddau hynny. Noda'r Cod mai cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:
    - rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion;
    - cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir; a
    - pharatoi Datganiadau Ariannol yn unol â gofynion perthnasol.
11. Fel eich archwilydd penodedig, mae'n ofynnol i mi archwilio'r datganiadau ariannol a chyflwyno adroddiad archwilydd sy'n cynnwys barn ar b'un a yw'r datganiadau ariannol yn cyflwyno darlun teg o drafodion yr Awdurdod; eu bod wedi'u paratoi'n gywir yn unol â deddfwriaeth, cyfarwyddiadau neu reoliadau perthnasol a safonau cyfrifyddu cymwys; ac y cymhwyswyd ei wariant yn gyfreithlon.
12. Mae fy ngwaith archwilio ariannol yn cynnwys y meysydd canlynol:
    - datganiadau ariannol;
    - systemau ariannol;
    - rheoli ariannol; a
    - chyflwr ariannol.

## Rhoddais farn archwilio ddiamod ar gyfrifon yr Awdurdod am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2006

13. Mae Safon Archwilio Ryngwladol 260 yn ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr gyflwyno adroddiadau i'r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu' ar ganfyddiadau yr archwiliad o gyfrifon. Cyflwynwyd fy adroddiad 'Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol - cyflwyno adroddiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu' i'r Awdurdod ar 23 Hydref 2006. Ceir crynodeb o'm canfyddiadau yn Arddangosyn 2.

**Arddangosyn 2: Gofynion cyflwyno adroddiadau Safon Archwilio Rryngwladol 260**

| Y gofyniad i gyflwyno adroddiad | Ymateb yr Archwilydd |
|---|---|
| Addasiadau i adroddiad yr archwilydd. | Nid oedd materion yn codi a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i mi addasu adroddiad yr archwilydd. |
| Camddatganiadau nas addaswyd. | Nid oedd y driniaeth o ddarpariaethau o £515,000 yn cydymffurfio â gofynion Safon Cyflwyno Adroddiad Ariannol 12 a Datganiad CIPFA o'r Arfer a Argymhellir.<br>Roedd y driniaeth yn gyson â'r hyn a gymhwyswyd gan yr Awdurdod ers 1996 a derbyniwyd bod eich ymagwedd yn ddarbodus ac yn dryloyw. Mae'r symiau a neilltuwyd yn cael eu defnyddio'n gyffredinol o fewn cyfnod rhesymol ac mae'r awdurdodau cyfansoddol yn ymwybodol o'r trefniadau ac yn fodlon arnynt.<br>Yn ogystal, nodwyd wyth gwall nad oeddent yn fân wallau yn ystod yr archwiliad. Gwnaethpwyd trefniadau priodol gan reolwyr. |
| Gwendidau perthnasol yn y systemau cyfrifyddu a rheolaeth fewnol a nodwyd yn ystod yr archwiliad. | Ni nodwyd unrhyw wendidau cyfrifyddu a rheolaeth fewnol sylweddol sydd wedi fy rhwystro rhag rhoi barn archwilio ddiamod. |
| Safbwyntiau ynglŷn ag agweddau ansoddol ar arferion cyfrifyddu a chyflwyno adroddiadau ariannol yr endid. | Nid oedd unrhyw faterion yn codi y mae angen i mi gyflwyno adroddiad arnynt. |
| Materion y mae'n ofynnol iddynt, yn ôl safonau archwilio eraill, gael eu cyfleu i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. | Nid oedd materion a oedd yn effeithio ar y farn archwilio. |
| Unrhyw faterion perthnasol eraill sy'n ymwneud â'r archwiliad. | Nid oedd materion a oedd yn effeithio ar y farn archwilio. |

14. Bodlonwyd y dyddiadau cynharach a bennwyd ar gyfer y fenter Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan gan yr Awdurdod. Paratowyd datganiadau ariannol drafft yr Awdurdod yn unol â Datganiad CIPFA o'r Arfer a Argymhellir ac fe'u cymeradwywyd ar 19 Mehefin 2006, cyn y terfyn amser o 31 Gorffennaf 2006.

15. Paratowyd papurau gwaith ategol yr Awdurdod i safon dda. Hwylusodd hyn y gwaith o gwblhau'r archwiliad o'r datganiadau ariannol a chyflwynwyd adroddiad archwilydd diamod ar gyfrifon yr Awdurdod ar 31 Hydref 2006.

16. Cyflwynwyd ffurflen gryno fel rhan o'r fenter cyfrifon y llywodraeth gyfan i Lywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth y Cynulliad) ar 22 Awst 2006. Cadarnhaodd fy nilysiad o'r ffurflen y datganwyd y data yn gywir a'i fod yn addas at y diben.

## Gellir dibynnu ar systemau ariannol pwysig yr Awdurdod i gynhyrchu canlyniadau sy'n gywir mewn ffyrdd perthnasol

17. Mae fy adolygiad o systemau ariannol yr Awdurdod wedi cynnwys dogfennu'r systemau ariannol pwysig a lle y bo angen, profi'r rheolaethau mewnol.

18. Deuthum i'r casgliad y gellir dibynnu ar systemau ariannol pwysig yr Awdurdod i gynhyrchu canlyniadau sy'n gywir mewn ffyrdd perthnasol. Nid oes materion penodol y mae angen i mi dynnu sylw aelodau atynt.

## Mae'r Awdurdod wedi parhau i ddefnyddio trefniadau llywodraethu priodol

19. Er mwyn dangos stiwardiaeth ariannol mae angen i'r Awdurdod sicrhau bod ganddo drefniadau rheoli ariannol effeithiol yn cynnwys:
    - rheolaethau ariannol mewnol megis rheolau sefydlog cynhwysfawr a rheoliadau ariannol, rheolaeth gyllidebol gadarn ac Archwiliad Mewnol effeithiol;
    - gweithredu safonau ymddygiad ariannol cydnabyddedig;
    - trefniadau i sicrhau mai dim ond lle y mae darpariaeth gyfreithiol benodol iddo wneud hynny y mae'r Awdurdod yn ymgymryd â thrafodion; a
    - threfniadau sefydledig a dealladwy i atal a chanfod twyll a llygredd.

20. Datgelodd fy adolygiad bod y trefniadau ar gyfer sicrhau bod yr Awdurdod ond yn ymgymryd â thrafodion cyfreithlon ar waith a'u bod wedi parhau i weithredu'n effeithiol. Cafwyd bod fframwaith moesegol yr Awdurdod yn gweithredu'n effeithiol ynghyd â'r trefniadau ar gyfer atal a chanfod twyll a llygredd fel y gwelwyd yn y strategaeth gwrth-dwyll a llygredd a'r polisi ynglŷn â chwythu'r chwiban.

21. Mae'r Archwiliad Mewnol yn elfen allweddol o gael sicrwydd bod systemau ariannol yr Awdurdod yn parhau i weithredu'n effeithiol. Mae Archwilio Mewnol yn rhan hanfodol o drefniadau llywodraethu y corff a archwiliwyd. Darperir gwasanaeth Archwilio Mewnol yr Awdurdod gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, o dan Cytundeb Lefel Gwasanaeth.

22. Asesodd fy archwilwyr p'un a oedd Archwilio Mewnol yn cydymffurfio â gofynion Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol. Fy nghasgliad oedd yr erys lle i Archwilio Mewnol a'r Awdurdod datblygu ymhellach eu trefniadau ar gyfer sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn a phob un o'r deg o safonau Archwilio Mewnol CIPFA. Yn benodol:
    - mae lle i Bennaeth yr Archwiliad Mewnol ddatblygu cydberthynasau effeithiol â rheolwyr yr Awdurdod o hyd;
    - ni chynhyrchodd yr Archwiliad Mewnol Strategaeth Archwilio a oedd yn nodi sut y darperir a datblygir ei waith dros y tymor canolig; ac
    - nid oedd adroddiad blynyddol yr Archwiliad Mewnol yn cydymffurfio'n llawn â chanllawiau Cod Ymarfer CIPFA.

23. Yn ogystal â'm canfyddiadau uchod, er bod y trefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar waith archwilio i swyddogion a'r ymatebion a roddwyd yn foddhaol, nid oes trefniadau cytûn ar gyfer cyflwyno canfyddiadau archwilio i aelodau'r Awdurdod. Er mwyn hwyluso hyn a hyrwyddo llywodraethu effeithiol mae llawer o gyrff sector cyhoeddus wedi sefydlu Pwyllgorau Archwilio.

24. Argymhellaf y dylai'r Awdurdod sefydlu Pwyllgor Archwilio i helpu i godi proffil rheolaethau mewnol, rheoli risg a chyflwyno adroddiadau ariannol yn ogystal â darparu fforwm ar gyfer trafod a monitro'r materion archwilio a godwyd gan yr archwiliad mewnol a'r archwiliad allanol. Prif rôl y Pwyllgor Archwilio yw:

- ystyried a chymeradwyo rhaglen waith yr archwiliad mewnol a'r archwiliad allanol;
- derbyn adroddiadau archwilio a'u trafod; a
- sicrhau y gweithredir yr argymhellion cytûn yn gywir ac yn ddiymdroi.

## Mae'r Awdurdod wedi sefydlu cyllideb fantoledig ac wedi parhau i fonitro refeniw a gwariant cyfalaf

25. Rwyf yn gyfrifol am asesu a yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau digonol ar waith i fonitro, rheoli a chyflwyno adroddiad ar ei sefyllfa ariannol. Roedd fy archwiliad yn seiliedig ar adolygu'r meysydd canlynol:

- pennu cyllideb refeniw a rhaglen gyfalaf gytbwys;
- monitro a chyflwyno adroddiadau ariannol;
- cyflawni targedau ariannol; a
- chronfeydd ariannol wrth gefn.

26. Archwiliodd fy archwilwyr adroddiadau a gweithdrefnau'r gyllideb ac rwy'n fodlon bod trefniadau addas ar waith. Mae cyllidebau refeniw a chyfalaf yr Awdurdod yn cwmpasu pob maes perthnasol o incwm a gwariant ac maent yn seiliedig ar dybiaethau realistig. Mae gan yr Awdurdod drefniadau cadarn ar waith hefyd ar gyfer monitro a chyflwyno adroddiadau ariannol a ddylai sicrhau bod unrhyw gamddatganiadau ac amrywiannau perthnasol posibl yn cael eu nodi.

27. Mae gan yr Awdurdod hanes o weithredu o fewn ei gyllideb a pharhaodd hyn yn 2005/2006 gyda'r alldro a gofnodwyd ar wariant refeniw a chyfalaf yn unol â'r gyllideb gytûn.

28. Mae'r Awdurdod wedi parhau i dderbyn adroddiadau chwarterol gan y Trysorydd ar wariant hyd yma a'r sefyllfa o'i chymharu â'r gyllideb. Mae'r adroddiad ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 30 Medi 2006 yn dangos tanwariant cyfredol o £263,919 (0.9 y cant o'r gyllideb gytûn). Mae'r prif faes o danwariant yn ymwneud â chostau cyflogeion sydd wedi codi oherwydd cyfraddau swyddi gwag ac arbedion ar ffioedd criwiau dydd.

## Rwy'n fodlon o ran bodolaeth y trefniadau a oedd ar waith gan Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn ystod y flwyddyn i roi cefnogaeth briodol i gyflawni ei gyfrifoldeb am sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau yn ystod 2005/2006

29. Wrth archwilio cyfrifon yr Awdurdod bob blwyddyn, mae'n ofynnol i mi o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf) i fodloni fy hun ei fod wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau. Adlewyrchir y gofyniad hwn hefyd yng Nghod yr Archwilydd Cyffredinol. Nodir fy nghasgliad ffurfiol ar drefniadau'r Awdurdod ar gyfer 2005/2006 yn Atodiad 1.

30. Mae'r Cod yn nodi sut y dylid cyflawni'r gwaith yn y maes hwn. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr sy'n gweithio ar fy rhan adolygu a, lle y bo'n briodol, archwilio tystiolaeth sy'n berthnasol i drefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheoli ariannol y corff a archwiliwyd a chyflwyno adroddiad ar y trefniadau hyn. Mae hefyd yn datgan y dylai tystiolaeth o'r modd y mae'r corff a archwiliwyd yn gweithredu ei system rheolaeth fewnol gyfan, a fyddai'n cynnwys y trefniadau hyn, ac fel y cyflwynwyd adroddiad arni yn ei Ddatganiad am Reolaeth Fewnol, fod yn ffynhonnell bwysig o dystiolaeth i archwilwyr ei defnyddio i lunio eu casgliadau.

### Wrth ddod i'm casgliad, rwyf yn asesu perthnasedd unrhyw fylchau yn y trefniadau y disgwylir iddynt fod ar waith

31. Mae'r Awrdurdod yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnydd yr Awdurdod o adnoddau. At ddibenion fy ngwaith, rwyf wedi gwerthuso systemau'r Awdurdod yn erbyn nifer o 'gwestiynau' ar wahân o ran trefniadau priodol y gellid disgwyl yn rhesymol eu bod ar waith mewn sefydliad o'i faint a'i rôl. Nodir manylion yr ymagwedd hon yn Atodiad 2. Ar gyfer pob cwestiwn, rwyf yn ystyried a oes bylchau yn y trefniadau y disgwylir iddynt fod ar waith, ac arwyddocâd y bylchau hynny.

32. Wrth ystyried arwyddocâd, ystyriaf effaith bosibl absenoldeb trefniadau disgwyliedig. Er enghraifft, mae absenoldeb trefniadau rheolaeth gyllidebol yn debygol o gael effaith sylweddol ar allu sefydliad i sicrhau gwerth am arian yn ei ddefnydd o adnoddau. Pan fyddaf yn dod o hyd i fylchau sylweddol yn y canfyddiadau yn erbyn cwestiwn ar drefniadau, yna gallaf godi materion a gwneud argymhellion sy'n ymwneud â gwella'r agwedd honno ar y trefniadau. Mae'r graddau yr wyf yn codi materion ac yn gwneud argymhellion yn gysylltiedig ag arwyddocâd effaith y materion hynny ar gyflawni'r trefniadau priodol yn gyffredinol.

33. Lle y nodwyd un neu fwy o faterion o ran trefniadau, ac yr aseswyd bod y rhain yn cael effaith arwyddocaol ar gyflawniad cyffredinol trefniadau priodol, neu, os nad ydwyf yn fodlon bod corff a archwiliwyd wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau gwerth am arian yn ei ddefnydd o adnoddau, yna rwyf yn cyflwyno

adroddiad yn unol â hynny.  Nid oes unrhyw faterion yn codi o'm gwaith yn y maes hwn ar gyfer 2005/2006 yr hoffwn dynnu eich sylw atynt.

34. Yn ogystal â'm gwaith a ddisgrifiwyd uchod, daeth ffynonellau pwysig eraill o sicrwydd o adolygiad blynyddol yr Awdurdod o'r ffordd y mae'n gweithredu ei systemau rheolaeth fewnol, ac o waith yr archwiliad mewnol yn y maes hwn. Mae fy archwilwyr wedi gweithio'n agos gyda'r archwiliad mewnol yn ystod y flwyddyn, a heblaw lle maent yn effeithio ar y casgliad y cyflwynwyd adroddiad arno uchod, nid ydynt wedi ceisio ailadrodd pwyntiau a godwyd ganddo.

### Mae'r Awdurdod wedi parhau i weithio gyda Llywodraeth y Cynulliad a Swyddfa Archwilio Cymru ar gynigion i gyflwyno Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella i Awdurdodau Tân

35. Mae Llywodraeth y Cynulliad wrthi'n paratoi ei ddrafft terfynol o fframwaith Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella ar gyfer ymgynghori arno. Cyn hyn cytunwyd bod y fframwaith wedi'i strwythuro ar sail hunan asesiad, Asesiad Risg ar y Cyd a Chynllun Gwella ac y bydd yn cwmpasu agweddau 'gweithredol' ac 'anweithredol' ar Awdurdod Tân. Cynhelir ymgynghoriad ar becyn cymorth sicrwydd gweithredol y Cynulliad a chanllawiau gweithredu anweithredol Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella dros y misoedd sydd i ddod. Yn ystod yr amser hwn bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithio gydag Awdurdodau Tân i baratoi ar gyfer cyflwyno Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella.

36. Mae Cylchlythyr W-FRSC (06) 32 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ar 13 Hydref 2006 yn nodi Trefniadau Interim Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella ar gyfer Awdurdodau Tân yn ystod 2006/2007. Yn benodol gofynnodd y cylchlythyr i Awdurdodau Tân gynhyrchu Cynllun Gwella ar gyfer 2006/2007 erbyn 31 Hydref 2006. Gofynnwyd i Swyddfa Archwilio Cymru gadarnhau a oedd y Cynllun Gwella yn cyflawni'r gofynion ac archwilio'r Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau ar gyfer 2005/2006.

37. Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'r cylchlythyr drwy baratoi ei Gynllun Gwella erbyn y dyddiad disgwyliedig. Mae fy archwilwyr wedi cadarnhau fod y Cynllun Gwella yn yn bodloni gofynion cylchlythyr W-FRCS (06) 32 a'i fod yn cynnwys:

- crynodeb o flaenoriaethau strategol yr Awdurdod ar gyfer gwella;
- trefniadau ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau gwella'r Awdurdod yn 2006/2007;
- sylwebaeth ar berfformiad yr Awdurdod yn 2005/2006 wedi'i hategu gan wybodaeth am berfformiad alldro (data ar ddangosyddion perfformiad gwerth gorau; a
- thargedau ar gyfer y flwyddyn gyfredol (2006/2007) a blynyddoedd y dyfodol os yw'n berthnasol.

### Mae gan yr Awdurdod fframwaith rheoli perfformiad ar waith, ond mae angen ei atgyfnerthu. Mae'r Awdurdod wedi cydnabod yr hyn sydd angen ei wneud, ond mae angen digon o adnoddau i sicrhau y gellir gweithredu'r cynlluniau yn llawn

38. Bydd rheoli perfformiad priodol yn agwedd allweddol ar Raglen Cymru ar gyfer Gwella mewn perthynas â chael sicrwydd gweithredol ac anweithredol. Fel rhan

o'm gwaith i gefnogi datblygiad Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella gofynnodd y Prif Swyddog Tân i mi adolygu'r gweithdrefnau arfaethedig a'r cynnydd o ran gweithredu fframwaith rheoli perfformiad newydd. Amcanion yr adolygiad oedd:

- ystyried gweithredu'r fframwaith rheoli perfformiad a'i integreiddio â phrosesau corfforaethol eraill yn cynnwys pennu cyllidebau, cynllunio busnes ac arfarnu staff;
- pennu'r graddau y ceir blaenoriaethau ac amcanion corfforaethol clir ac ystyrlon a ddeallir gan staff ac y mae gan staff berchenogaeth arnynt;
- adolygu'r graddau y mae targedau'r gyfarwyddiaeth/gorsaf yn adlewyrchu blaenoriaethau corfforaethol (yn cynnwys sut y dewiswyd y rhain);
- archwilio trefniadau sydd ar waith drwy'r sefydliad ar gyfer rheoli'r wybodaeth sydd ei hangen i fonitro'r broses o gyflawni targedau;
- archwilio trefniadau sydd ar waith drwy'r Gwasanaeth ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar wybodaeth am berfformiad (yn cynnwys rôl yr Awdurdod);
- asesu a yw'r trefniadau cyflwyno adroddiadau yn briodol i anghenion defnyddwyr;
- ystyried sut y defnyddir y wybodaeth i geisio gwelliannau a chyflawni amcanion lleol;
- adolygu sut y defnyddir y wybodaeth i roi cyfrif am weithgareddau a'u hesbonio i aelodau, y cyhoedd a phartneriaid; ac
- adolygu'r fframwaith a'r trefniadau hyn yn erbyn gofynion syd ar droed Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella.

39. Rwyf wedi cyflwyno adroddiad ar ôl cwblhau'r adolygiad. Datgelodd y canlynol:

- bod fframwaith rheoli perfformiad ar waith, ond bod angen ei atgyfnerthu;
- bod y fframwaith cynllunio yn datblygu ond nad oes un ddogfen unigol sy'n cyfleu prif elfennau'r fframwaith;
- bod y fframwaith cyflwyno adroddiadau ar waith ond bod angen ei wella; a
- dylid penodi 'hyrwyddwr gweithredol' er mwyn hwyluso'r broses o weithredu'r feddalwedd rheoli perfformiad.

### Dangosyddion perfformiad

40. Cyn cyflwyno Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella, mae Awdurdodau Tân Cymru wedi parhau i gasglu a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n cynnwys dangosyddion statudol. Cwblhaodd yr Awdurdod ei gynllun, a'i osod ar wefan yr Awdurdod erbyn 31 Hydref 2006.

41. Mae fy archwilwyr wedi cadarnhau fod y cynllun yn bodloni'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad. Nid oes unrhyw faterion yn codi o'm gwaith yn y maes hwn ar gyfer 2005/2006 yr hoffwn dynnu eich sylw atynt.

Atodiad 1

# Adroddiad yr Archwilydd ar y trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau yn ystod 2005/2006

**Casgliad ar drefniadau Awdurdod Tân Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006 ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau**

**Cyfrifoldebau'r Awdurdod**

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau, ac i sicrhau stiwardiaeth a llywodraethu priodol.
Mae'r Awdurdod hefyd yn gyfrifol am adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn rheolaidd.

**Cyfrifoldebau'r Archwilydd**

Mae gennyf gyfrifoldeb o dan Adran 17(2) o'r Ddeddf i gasglu o'm harchwiliad o gyfrifon blynyddol yr Awdurdod, p'un a wyf yn fodlon o ran bodolaeth y trefniadau a oedd ar waith ganddo yn ystod y flwyddyn i ategu ei gyfrifoldeb i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau yn briodol. At ddibenion fy ngwaith yn y maes hwn, rwyf wedi asesu 'trefniadau priodol' yn bennaf fel trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheoli ariannol sefydliad, y diffinnir elfennau o bwys ohonynt ym mharagraff 48 o God yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyflwynaf adroddiad os daw materion o bwys i'm sylw sy'n fy atal rhag casglu bod yr Awdurdod wedi gwneud trefniadau priodol o'r fath. Wrth gyflawni fy ngwaith, nid wyf wedi ystyried a yw'r trefniadau sydd ar waith yn cynrychioli'r holl drefniadau a allai fod ar waith. Hefyd nid yw'n ofynnol i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried fel rhan o'r agwedd hon ar fy ngwaith, effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith ar gyfer sicrhau gwerth am arian yn ystod y flwyddyn dan sylw.

**Casgliad**

Mae'r casgliad canlynol yn seiliedig ar waith a gyflawnwyd fel rhan o'm harchwiliad o gyfrifon 2005/2006 i gadarnhau, ym mhob ffordd berthnasol, pa drefniadau a oedd ar waith gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn i ategu ei gyfrifoldeb i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau ac mae'n gyfyngedig i'r gwaith hwnnw.

Wrth gyflawni fy ngwaith, nid wyf wedi ystyried a yw'r trefniadau sydd ar waith yn cynrychioli'r holl drefniadau a allai fod ar waith. Hefyd nid yw'n ofynnol i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith ar gyfer sicrhau gwerth am arian yn ystod y flwyddyn dan sylw.

Ar sail datganiad am reolaeth fewnol yr Awdurdod ac o ganlyniad i'r gwaith a gyflawnwyd, fel y disgrifiwyd uchod fel rhan o'm harchwiliad o gyfrifon 2005/2006, a'r holl wybodaeth arall yr ystyriais ei bod yn berthnasol, rwy'n fodlon o ran bodolaeth y trefniadau a oedd ar waith gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn i roi cefnogaeth briodol i'w gyfrifoldeb i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

| | |
|---|---|
| Anthony Barrett<br>Archwilydd Penodedig<br>21 Rhagfyr 2006 | Swyddfa Archwilio Cymru<br>Uned 4, Evolution<br>Pentref Busnes Lakeside<br>Parc Dewi Sant<br>Ewlo<br>CH5 3XP |

Atodiad 2

# Meini prawf ar gyfer asesu trefniadau Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn ystod 2005/2006 ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei defnydd o adnoddau

| Trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol a Rheoli Ariannol | Cwestiynau ar drefniadau |
|---|---|
| **Pennu amcanion, penderfynu ar bolisïau a gwneud penderfyniadau** | 1. A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer pennu, adolygu a gweithredu ei amcanion strategol a gweithredol? |
| **Diwallu anghenion defnyddwyr a threthdalwyr** | 2. A yw'r Awdurdod wedi sefydlu modd i gyfathrebu â chleifion a'u cynrychiolwyr, a rhanddeiliaid eraill yn cynnwys partneriaid, ac a oes trefniadau monitro i sicrhau bod negeseuon allweddol ynglŷn â gwasanaethau yn cael eu hystyried? |
| **Cydymffurfiaeth â pholisïau sefydledig** | 3. A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i gynnal system rheolaeth fewnol gadarn, yn cynnwys trefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, a pholisïau a gweithdrefnau mewnol? |
| **Rheoli risgiau gweithredol ac ariannol** | 4. A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i reoli ei risgiau busnes o bwys? |
| **Rheoli adnoddau ariannol ac adnoddau eraill** | 5. A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i werthuso a gwella'r gwerth am arian y mae'n ei gyflawni yn ei ddefnydd o adnoddau? |
| | 6. A yw'r Awdurdod wedi rhoi strategaeth ariannol, cyllidebau a rhaglen gyfalaf tymor canolig ar waith ac iddynt sail gadarn a chyda'r nod o gyflawni ei flaenoriaethau strategol? |
| | 7. A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod ei wariant yn cyfateb i'r adnoddau sydd ar gael? |
| | 8. A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer rheoli a monitro perfformiad yn erbyn cyllidebau, gan gymryd camau adferol lle bo'n briodol, a chyflwyno adroddiad ar y canlyniadau i uwch reolwyr a'r Awdurdod? |
| | 9. A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer rheoli ei sail asedau? |
| **Monitro ac adolygu perfformiad** | 10. A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer monitro perfformiad a chraffu arno, i nodi amrywiannau posibl yn erbyn amcanion, safonau a thargedau strategol, ar gyfer gweithredu lle bo angen a chyflwyno adroddiad i'r Awdurdod? |
| | 11. A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i fonitro ansawdd ei wybodaeth gyhoeddedig am berfformiad, ac i gyflwyno adroddiad ar y canlyniadau i aelodau'r Awdurdod? |
| **Safonau ymddygiad priodol ac ati** | 12. A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith gyda'r nod o hyrwyddo a sicrhau gonestrwydd a phriodoldeb wrth gynnal ei fusnes? |

## Atodiad 3

# Adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod archwiliad 2005/2006

| Adroddiad | Dyddiad cyhoeddi |
|---|---|
| Strategaeth archwilio | Mawrth 2006 |
| Adolygiad Rheoli Perfformiad | Rhagfyr 2006 |
| Adolygiad o'r Archwiliad Mewnol | Rhagfyr 2006 |
| Memorandwm Datganiadau Ariannol (Drafft) | Rhagfyr 2006 |
| Llythyr Archwilio Blynyddol | Rhagfyr 2006 |

Atodiad 4

## Ffi archwilio

Nododd fy Strategaeth Archwilio ar gyfer 2005/2006 ffi archwilio arfaethedig o £47,062 (ynghyd â TAW). Mae'r tabl isod yn nodi fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol ar gyfer 2005/2006, ar y sail bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd, yn ôl prif feysydd y Cod.

**Dadansoddiad o'r ffi archwilio arfaethedig a'r ffi archwilio wirioneddol 2005/2006**

| Maes y cod | Ffi arfaethedig 2005/2006 (£) | Ffi wirioneddol 2005/2006 (£) |
|---|---|---|
| Cyfrifon Ariannol | 33,755 | 33,755 |
| Perfformiad | 13,307 | 13,307 |
| **Cyfanswm** | **47,062** | **47,062** |

Swyddfa Archwilio Cymru
2-4 Park Grove
Caerdydd CF10 3PA
Ffôn: 029 2026 0260
Ffacs: 029 2026 0026
Ffôn Testun: 029 2026 2646
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk